**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill)**

**Ymateb Lywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**11 Mehefin 2025**

Ar 7 Chwefror 2025, gosododd Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Memorandwm Rhif 1) gerbron y Senedd mewn cysylltiad â'r Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill). Ar 6 Mawrth 2025, gosododd Ysgrifennydd y Cabinet Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) mewn cysylltiad â'r un Bil. Cytunodd Pwyllgor Busnes y Senedd y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus gyflwyno adroddiad ar bob Memorandwm sy'n ymwneud â'r Bil.

Lluniodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad adroddiad ar 1 Mai 2025. Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwnnw.

## Cyflwyniad

Cyflwynwyd y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill) ("y Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 22 Ionawr 2025, ar gyfer y Darlleniad Cyntaf. Mae'r Bil ar gael yn: Y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill).

Noddir y Bil gan Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus, sef rhan o Swyddfa'r Cabinet, a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r Bil yn gwneud darpariaethau i nodi, atal a rhwystro twyll a gwallau yn y sector cyhoeddus yn well, a galluogi arian (dyled) sy'n ddyledus i'r trethdalwr i gael ei adennill yn well pan fo arian cyhoeddus wedi'i gaffael drwy dwyll neu ei ordalu.

Gosododd Llywodraeth Cymru ei Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Memorandwm Rhif 1) gerbron y Senedd ar 7 Chwefror 2025 mewn cysylltiad â chymalau 1, 2, 5, 6, 7, 9, 10, 64, 65, 67 a 69 o RAN 1 o'r Bil, ynghyd ag Atodlenni 1 a 2 fel y'u cyflwynwyd i'r Senedd. Yn dilyn hynny, gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar 6 Mawrth 2025.

Fe wnaeth Pwyllgor Busnes y Senedd gyfeirio Memoranda Rhif 1 a Rhif 2 at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Gosododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ei adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar 1 Mai 2025. Wrth wneud hynny, daeth i ddau gasgliad a gwnaeth ddau argymhelliad i'w hystyried gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys ymateb Ysgrifennydd y Cabinet i'r argymhellion hyn.

Ers gosod y Memoranda blaenorol, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi gosod ail Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar 7 Mai 2025. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi comisiynu gwaith craffu pellach ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad ar y gwaith craffu pellach hwn wedi'i osod eto ac mae'r ymateb hwn yn mynd i'r afael ag Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol cyntaf yn unig.

## Ymateb i faterion a godwyd gan y Pwyllgor

Mae'r ymateb hwn yn mynd i'r afael â'r ddau gasgliad a'r ddau argymhelliad yn Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a osodwyd ar 7 Chwefror 2025 ac yn defnyddio rhifau'r adrannau a geir yn y Bil fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin ar 22 Ionawr 2025.

## Casgliad 1

Cytunwn ag asesiad Llywodraeth Cymru, fel y'i nodir yn y Memorandwm, o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer yn unol â Rheol Sefydlog 29; ond mae hyn yn amodol ar ein barn a nodir yng nghasgliad 2.

Dim angen ymateb.

## Casgliad 2

Rydym o'r farn bod pob cymal yn Rhan 1 o'r Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig (i'r graddau y gallai Gweinidog Swyddfa'r Cabinet arfer y pwerau a'r swyddogaethau yn Rhan 1 ar ran Awdurdod Cymreig

Datganoledig) ac, o’r herwydd, y dylid ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer Rhan 1 yn ei chyfanrwydd.

Dim angen ymateb.

## Argymhelliad 1

Dylai’r Ysgrifennydd Cabinet ddarparu eglurder a rhesymeg fanwl ynghylch pam nad yw Llywodraeth Cymru o’r farn y dylid ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer Rhan 1 o’r Bil yn ei chyfanrwydd. Wrth ymateb, dylai’r Ysgrifennydd Cabinet ymdrin yn benodol â pham y mae Llywodraeth Cymru o’r farn bod angen cydsyniad ar gyfer cymal 7 ond nad oes ei angen ar gyfer cymal 3.

Ymateb: Derbyn

Mae pwnc Rhan 1 o'r Bil yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl drwy weithrediad paragraff 39 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("atal, canfod ac ymchwilio i droseddau"). O ganlyniad, mae Rhan 1 o'r Bil, i raddau helaeth, y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Fodd bynnag, mae rhai darpariaethau yr ystyrir eu bod yn effeithio ar Awdurdodau Cymreig Datganoledig, gan gynnwys, yn achos rhai cymalau, ar roi swyddogaethau i'r Awdurdodau hyn. Ystyrir bod y cymalau penodol hyn yn bodloni'r prawf a nodir yn Rheol Sefydlog (RhS) 29 o Reolau Sefydlog y Senedd ('Prawf RhS29') ac, felly, ystyrir bod angen Cydsyniad Deddfwriaethol ar eu cyfer. Nid yw hyn yn wir am y rhan fwyaf o'r cymalau yn Rhan 1 o'r Bil.

Er bod Rhan 1 o'r Bil yn dwyn y teitl "Functions exercisable on behalf of public authorities" ("Swyddogaethau sy'n arferadwy ar ran awdurdodau cyhoeddus"), mae natur bron pob un o'r swyddogaethau hyn yn golygu eu bod yn swyddogaethau'r Gweinidog/Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus yn y bôn ac y byddant yn cael eu harfer fel y gwelant yn dda, heb gyfeirio at yr awdurdod cyhoeddus sy'n atgyfeirio, gan gynnwys Awdurdodau Cymreig Datganoledig (nad oes ganddynt y swyddogaethau hyn eu hunain). Am y rheswm hwn, nid yw'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau yn Rhan 1 (gan gynnwys cymal 3) yn effeithio'n sylweddol ar Awdurdodau Cymreig Datganoledig. Pan fo darpariaeth o'r Bil yn rhoi swyddogaeth benodol i awdurdodau cyhoeddus (e.e. cymal 5), gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn cysylltiad â hi.

Nid yw cymal 7 (ynghyd ag Atodlen 1) yn rhoi swyddogaethau i awdurdodau cyhoeddus/Awdurdodau Cymreig Datganoledig. Fodd bynnag, mae'n galluogi'r Gweinidog/Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus i ddefnyddio pwerau ymwthiol chwilio ac atafaelu yn ystod ymchwiliad i dwyll a gyflawnir yn erbyn awdurdod

cyhoeddus. Gall ymchwiliadau o'r fath gynnwys defnyddio pwerau gorfodaethol yn erbyn unigolion a busnesau yng Nghymru i adennill arian ar gyfer Awdurdodau Cymreig Datganoledig. Felly, gallai defnyddio'r pwerau hyn effeithio'n sylweddol ar enw da Awdurdodau Cymreig Datganoledig a'u perthynas â'r unigolion yng Nghymru y maent yn eu gwasanaethu. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hefyd mewn cysylltiad â chymal 6 (sy'n galluogi dod o hyd i ddata cyfathrebu) am resymau tebyg.

## Argymhelliad 2

**Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet egluro a ofynnodd Llywodraeth Cymru am bwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru sy'n cyfateb i'r pwerau a ddirprwyir i Weinidog Swyddfa'r Cabinet i weithredu mewn meysydd datganoledig ac y gellid eu harfer yn gydredol â Llywodraeth y DU.**

Ymateb: Derbyn

Er y gallai fod manteision ynghlwm wrth Weinidogion Cymru yn dal pwerau i gynnal ymchwiliadau ac i ddefnyddio pwerau adennill sifil fel dewisiadau amgen i'r meini prawf uwch sy'n gymwys mewn achosion troseddol, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gofyn am bwerau cyfatebol yn y Bil ar gyfer Gweinidogion Cymru.

Ym marn Ysgrifennydd y Cabinet, nid yw'r angen am y pwerau hyn yng Nghymru yn cyfateb i'r angen yn Lloegr. Nid yw Llywodraeth Cymru yn imiwn i dwyll oportiwnistaidd na thwyll wedi'i dargedu. Fodd bynnag, mae'r risg o dwyll a wynebir gan Lywodraeth y DU yn sylweddol ac yn gymesur uwch oherwydd y gyllideb fwy o lawer sy'n cael ei gwario a natur y gwariant hwnnw (megis taliadau budd-daliadau) sy'n golygu ei bod yn wynebu mwy o risg. O ystyried y gwahaniaeth yn y proffiliau risg twyll, ynghyd ag annarbodion maint posibl a'r anawsterau o gynnal y sgiliau arbenigol sydd eu hangen y byddai Cymru yn eu profi fel gweinyddiaeth llawer llai, mae Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn bod cynnwys mynediad at Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus i Awdurdodau Cymreig Datganoledig o fewn darpariaethau'r Bil yn cynnig opsiwn digonol, effeithiol, cost-effeithlon a chymesur.

Fel canolfan ragoriaeth gwrth-dwyll, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu cael mynediad at y sgiliau a'r arbenigeddau arbenigol cyfunol sydd gan Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus, yn ogystal â'i wybodaeth sylweddol am dwyll a'r buddsoddiad y bydd yn gallu ei wneud mewn offer a thechnegau gwrth-dwyll newydd. Yn benodol, gall y gallu i ddadansoddi a gwerthuso setiau data mawr o bob rhan o'r Deyrnas Unedig gyfan fod yn werthfawr, yn enwedig gan nad yw twyllwyr yn parchu ffiniau gweinyddol wrth gyflawni troseddau twyll.

Mae Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus yn arwain ar broffesiynoli gwasanaethau gwrth-dwyll o fewn Gwasanaeth Sifil y DU a bydd yr arweinyddiaeth hon hefyd yn sicrhau bod gwasanaethau ymchwilio cyson o ansawdd uchel ar gael yn rhad ac am ddim at ddefnydd Llywodraeth Cymru. Felly, amcanion polisi Llywodraeth Cymru yw cefnogi Llywodraeth y DU i greu asiantaeth ymchwilio i dwyll a gorfodi sy'n gyson ac yn gydlynol. Ystyrir hyn yn bwysig o gofio natur twyll a'r manteision cydnabyddedig i gyrff cyhoeddus o ymchwilio i dwyll yn effeithiol.